



FTWW

Triniaeth Deg i Fenywod Cymru

Ni yw'r elusen flaenllaw a arweinir gan ddefnyddwyr yng Nghymru sydd â'r nod penodol o gyflawni tegwch iechyd i fenywod, merched a phobl a aseiniwyd yn fenywaidd adeg eu geni (AFAB).

EIN GWELEDIGAETH

Y byd y dymunwn ei weld

Cymru lle mae hawl pawb i iechyd yn cael ei pharchu a'i chyflawni, gyda phawb yn gallu cael mynediad at gefnogaeth pryd y maent eu hangen.

EIN CENHADAETH

Beth rydym eisiau ei gyflawni

I ddod â phobl a sefydliadau ynghyd â lleisiau profiad o lygad y ffynnon i ddileu annhegwch iechyd yng Nghymru i fenywod, merched a phobl AFAB.

EIN RÔL

Rydym yn gweithio gyda menywod, merched a phobl AFAB, cyrff cyhoeddus a darparwyr gwasanaeth i ddileu annhegwch iechyd.

Rydym yn gwneud hyn trwy:

GWYBODAETH

Rydym yn sicrhau bod gan y bobl a gefnogwn fynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall, mynegi a rheoli'r problemau iechyd sy'n effeithio arnynt yn well a llywio'r gwasanaethau y maent eu hangen.

GRYMUSO

Rydym yn galluogi ein haelodau i ennill hyder, bod mewn gwell sefyllfa i oresgyn heriau yn eu bywydau, a chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu hiechyd a'u llesiant.

EIRIOLAETH

Rydym yn creu cyfleoedd i unigolion siarad o brofiad a chyfrannu at ddylunio a chyflwyno'r ymchwil, y polisi a'r arfer sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu llesiant a'u bywydau.



BLAENORIAETHAU STRATEGOL

- Herio a chefnogi cyrff a sefydliadau cyhoeddus fel bod profiad o lygad y ffynnon yn llywio dyluniad a chyflwyniad strategaethau a gwasanaethau sy'n sail menywod hiechyd a'u llesiant.
- Rhoi mecanweithiau ar waith i aelodau a gwirfoddolwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n tyfu eu sgiliau ac yn cryfhau gallu FTWW i ddylanwadu.
- Cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar iechyd menywod drwy wrando a gweithredu ar yr hyn y dywed ein haelodau sydd fwyaf pwysig iddynt.
- Cynyddu gwelededd ac eglurder neges FTWW fel bod pawb yn deall ein cenhadaeth, ein heffaith, a'n ffocws ar annhegwch iechyd.
- Sicrhau ein cynladwyedd fel y gallwn dyfu ein gallu i gyflawni ein nodau a'n cenhadaeth.